GLASDIR, RHUTHUN - MANYLION

Adeiladwaith: Traddodiadol gyda waliau allanol ag wyneb bric. Mae'r peipiau dŵr glaw a'r cwteri yn rhai plastic ac nid oes gwaith cynnal a chadw arnynt. Mae'r holl ddrysau mewnol yn rhai â 6 phanel gyda chelfi drws ac o gryfder canolig.

Trydanol: Golau trydan a socedi trydan digonol trwy'r eiddo gyda phwynt erial teledu yn yr ystafell fyw, ac mae gwifren wedi ei gadael yn y groglofft er mwyn cysylltu'r erial.

Nwy: Pwynt nwy wedi eu gosod yn y gegin.

Gwresogi: Gwres canolog nwy gyda falfiau rheiddiadur rheolaeth thermostatig.

Ffenestri: Ffenestri UPVC gyda chloeon ffenestr priodol a handlenni gwyn.

Addurn Mewnol ac Allanol: Bydd y waliau mewnol wedi eu lliwio mewn emwlsiwn Magnolia gyda'r gwaith pren wedi ei beintio mewn paent glos gwyn. Bydd y nenfwd yn llyfn wedi ei liwio gyda phaent emwlsiwn gwyn.

Gorffeniad Llawr: Llawr gwaelod concrid i bob ystafell ar wahân i'r gegin a'r ymolchfa. Llawr cyntaf - llawr asglodfwrdd tafod a rhigol (tongue and groove flooring quality chipboard)

Allanol: Rhodfa a llwybrau wedi eu gosod yn unol â'r cynllun. Panel pren Larchlap 1800mm o uchder. Ffens gaeedig 1800mm o uchder. Gardd yn y cefn wedi ei baratoi a'i drin. Casgen ddŵr yn y cefn. Tywyrch wedi eu gosod yn y gerddi blaen. Lein ddillad gylchdro yn yr ardd gefn.

Gwarant: Gwarant N.H.B.C. Mae pob uned yn cydymffurfio â gofynion dylunio ac adeileddol Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol a darperir gwarant adeileddol 10 mlynedd.

Daliadaeth: Rhydd-ddaliad, os prynir drwy gynllun Rhanberchnogaeth byddwch yn Lesddaliad

Gwasanaethau: Darperir cyflenwad nwy, dŵr, trydan a system ddraenio.

Teils Wal:
Mae'r ceginau wedi eu teilio rhwng y wal a'r unedau gwaelod a'r sil ffenestr.

Eiddo math Clwyd
Ymolchfa - wedi eu teilio i uchder llawn gyda theils ceramig mewn lliw addas. Man eillio.
Toiled lawr grisiau/ystafell gotiau, cefnfwrdd gyda theils ceramig mewn lliw addas

Eiddo math Conwy
Ymolchfa - wedi eu teilio i hanner yr uchder gyda theils ceramig mewn lliw addas. Man eillio.

En-suite - teils o uchder llawn o amgylch y gawod, wedi eu teilio i hanner yr uchder rownd y basn a'r toiled gyda theils ceramig mewn lliw addas.
Toiled lawr grisiau/ystafell gotiau, cefnfwrdd gyda theils ceramig mewn lliw addas

Mae'n bosib gofyn am deilio ychwanegol, fe fydd y pris i'w gytuno rhwng y prynwr â Taylor Wimpey.

Cegin:
Wedi eu gosod ag unedau cegin 'Copland Pear' ac wyneb gweithio 'Caldera'.
Popty ffan sengl Electrolux gwyn a hob nwy wedi ei osod.* Uwchraddio i stainless steel ar gael am gost ychwanegol gan Taylor Wimpey.*
Lle i beiriant golchi dillad ac oergell/rhewgell a pheiriant golchi llestri.
Gellir prynu peiriant golchi llestri integredig yn uniongyrchol gan Taylor Wimpey am gost ychwanegol.

* Efallai y bydd modd i ddarpar brynwyr gael dewis o unedau cegin a wyneb gweithio gwahanol, ac uwchraddio i gael popty a hob, yn dibynnu ar amserlen Taylor Wimpey ar gyfer adeiladu a dyrannu'r eiddo.